



Asiantaeth yr
Amgylchedd Cymru
Environment
Agency Wales

Cronfa Bensiwn Gaeëdig Fundfare 2012



Ni yw Asiantaeth yr Amgylchedd. Rydym yn diogelu ac yn gwella'r amgylchedd a'i wneud yn **Ile gwell** i bobl a bywyd gwylt.

Rydym yn gweithredu yn y man lle mae newid amgylcheddol yn cael ei effaith fwyaf ar fywydau pobl. Rydym yn lleihau'r risgiau i bobl ac eiddo rhag llifogydd; yn gofalu bod digon o ddŵr i bobl a bywyd gwylt; yn diogelu a gwella ansawdd aer, tir a dŵr ac yn cymhwysor safonau amgylcheddol y gall diwydiant weithredu o'u mewn.

Mae gweithredu i leihau newid yn yr hinsawdd a helpu pobl a bywyd gwylt i addasu i'w ganlyniadau wrth galon popeth a wnawn.

Ni allwn wneud hyn ar ein pen ein hun. Rydym yn gweithio'n agos gydag ystod eang o bartneriaid gan gynnwys y llywodraeth, busnes, awdurdodau lleol, asiantaethau eraill, grwpiau cymdeithas sifil a'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.

Cofrestrwyd Cronfa Bensiwn Gaeedig Asiantaeth yr Amgylchedd
gyda'r Gofrestrfa Cynlluniau Pensiwn
Rhif 10079068

Cyhoeddwyd gan:

Asiantaeth yr Amgylchedd
Horizon House
Deanery Road
Bryste BS1 5AH

Ffôn: 0870 850 6506
E-bost: enquiries@environment-agency.gov.uk
www.environment-agency.gov.uk

GEH0912BWXL-B-P

© Asiantaeth yr Amgylchedd Hydref 2012

Cedwir pob hawl. Gellir atgynhyrchu'r ddogfen hon gyda chaniatâd ymlaen llaw Asiantaeth yr Amgylchedd.

Cynnwys

Nodau a chynnwys	1
Datganiad y Cadeirydd	2
Pwyllgor Pensiynau ac ymgynghorwyr Asiantaeth yr Amgylchedd	3
Hyfforddiant y Pwyllgor Pensiynau	4
Ymgynghorwyr proffesiynol i'r Pwyllgor Pensiynau	5
Buddion y Gronfa Bensiwn	6
Aelodaeth y Gronfa Bensiwn	6
Buddion pensiwn	7
Newidiadau i'r CPLIL	7
Cynnydd pensiwn blynnyddol	8
Cynyddu Pensiwn y Wladwriaeth	8
Ffurflen Mynegi Dymuniad am Grant Marwolaeth	8
Gweinyddu buddion	9
Mesur perfformiad	9
Gweithredu'r contract gweinyddu newydd	9
Ansawdd data	9
Gweithdrefn Datrys Cwynion ac Anghydfod Mewnol	10
Y Cynllun Twyll Cenedlaethol / gwiriadau ar farwolaethau	10
Cyfathrebu gydag aelodau'r Gronfa	11
Datganiadau buddion	11
Gwybodaeth i Aelodau	11
Sesiynau brifio ynghylch Pensiynau	11
E-gyfathrebu	11
Rheoli buddsoddiadau	12
Datganiad Strategaeth Cyllido (FSS)	12
Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi (SIP)	12
Balansau agor a chau'r Gronfa	12
Newidiadau yng ngwerth y Gronfa dros y 10 mlynedd ddiwethaf	12
Prisiad actiwaraid bob tair blynedd	13
Perfformiad Buddsoddi	13
Rheolwyr y gronfa	13
Dosbarthiad o fuddsoddiadau'r Gronfa	13
Ymholiadau a chwynion yr aelodau	14
Atodiad 1 - Cytundeb cyllid y Llywodraeth	15
Atodiad 2 - Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth	16

Nodau a chynnwys

Cyhoeddir Fundfare bob blwyddyn i bob aelod o Gronfa Bensiwn Gaeedig Asiantaeth yr Amgylchedd.

Mae Fundfare yn crynhoi'r wybodaeth allweddol o'r Adroddiad Blynnyddol a'r Cyfrifon ac yn hysbysu aelodau am faterion pwysig sy'n ymwneud â'u pensiwn. Mae'n atgoffa'r aelodau hefyd am y buddion sylweddol sydd ar gael drwy'r Gronfa.

Gall y Pwyllgor Pensiynau gadarnhau bod yr adroddiad Fundfare hwn yn gynrychiolaeth deg, gywir a chyson o Gronfa Bensiwn Gaeedig Asiantaeth yr Amgylchedd am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2012, lle mae gan y datganiadau ariannol farn ddiamond. Mae'r Adroddiad a'r Cyfrifon llawn ar gael wrth wneud cais amdanynt neu o www.eapf.org.uk.

Mae Pwyllgor Pensiynau Asiantaeth yr Amgylchedd yn croesawu adborth am Fundfare gan holl aelodau'r Gronfa. Anfonwch unrhyw awgrymiadau neu sylwadau sydd gennych at:

Pennaeth Rheoli'r Gronfa Bensiwn
Asiantaeth yr Amgylchedd
Horizon House
Deanery Road
Bryste
BS1 5AH

Ebost: info@eapf.org.uk

Ffôn: 0117 934 5094

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am eich buddion pensiwn neu eich taliadau pensiwn eich hun, cysylltwch â Capita y mae eu manylion ar dudalen 14.

Datganiad y Cadeirydd

Fel Cadeirydd Pwyllgor Pensiynau Asiantaeth yr Amgylchedd, sy'n gyfrifol am oruchwyllo rheolaeth a gweinyddiaeth Cronfa Bensiwn Gaeedig Asiantaeth yr Amgylchedd ("y Gronfa"), mae'n bleser gennym gyflwyno Adroddiad Blynnyddol a Datganiadau Ariannol y Gronfa am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2012.

Eleni, mae ein hadroddiad blynnyddol a'r datganiadau ariannol, am y tro cyntaf, wedi'u paratoi gan ddefnyddio canllawiau newydd CIPFA ar adroddiadau naratif a datgeliadau cyfrifyddu ar gyfer cronfeydd pensiwn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, ac rwy'n falch o ddweud eu bod yn cydymffurfio â chanllawiau CIPFA.

Hyd nes y cafodd dwr ei breifateiddio ym 1989, roedd Cronfa Bensiwn yr Awdurdodau Dŵr yn gwasanaethu'r cyn Awdurdodau Dŵr Rhanbarthol yng Nghymru a Lloegr a chyrff eraill. Adeg y preifateiddio, cafodd aelodau gweithredol eu trosglwyddo i gynlluniau eraill. Dim ond pensiynwyr gohiriedig a phensiynwyr presennol a gafodd eu trosglwyddo i'r Gronfa.

Yn ystod y flwyddyn, gostyngodd cyfanswm y pensiynwyr presennol a'r aelodau gohiriedig o 875 (4.3%) i 19,544.

Ar 31 Mawrth 2012, prisir asedau net y Gronfa ar £152m (2011: £133m) a rhwymedigaethau'r Gronfa yw £921m (2011: £898m). Mae'r gwaith o reoli buddsoddiad yr asedau mewn dau gilt y maent wedi bod yn gyfrifol amdanynt am amser hir yn cael ei wneud gan Sarasin & Partners LLP. Yr adenillion buddsoddi ar gyfer 2011/12 oedd +23.5% (2011: +4.7%). Nododd y prisiad bob tair blynedd a wneir o'r Gronfa ac a gynhaliwyd ar 31 Mawrth 2010 mai lefel gyllido'r Gronfa oedd 14%. Y lefel gyllido ar 31 Mawrth 2012 yw 17% (2011: 15%).

Oherwydd nad oes gan y Gronfa unrhyw incwm o gyfraniadau, mae gan y Llywodraeth, o dan Adran 173 o Ddeddf Dŵr 1989, rhwymedigaeth statudol i sicrhau y gall y Gronfa bob amser dalu ei phensiynau a rhwymedigaethau cysylltiedig eraill. Gall aelodau gohiriedig, pensiynwyr a'u dibynyddion, felly, fod yn sicr ynghyllch diogelwch eu buddion pensiwn yn y tymor hir.


O dan delerau llythyrau rhwng Trysorlys Ei Mawrhydi ac Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra), a rhwng Defra ac Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Memorandwm o Ddealltwriaeth rhwng Swyddogion Cyfrifyddu Defra ac Asiantaeth yr Amgylchedd, mae'r Gronfa, ers 1 Ebrill 2006, wedi derbyn cymorth grant gan Defra. Yn ystod y flwyddyn derbyniwyd taliadau yn ffurfio cyfanswm o £80.9 miliwn ac fe'u defnyddiwyd i fodloni rhwymedigaethau'r Gronfa i dalu pensiynau a rhwymedigaethau eraill.

Yn ystod y flwyddyn rydym wedi cynnal prosiect i symleiddio'r gwaith o gyllido, rheoli a gweinyddu'r rhwymedigaethau 'heb eu hariannu' sy'n perthyn i'r Gronfa a etifeddwyd yn hanesyddol. Yn ystod 2011/12 talwyd trosglwyddiadau swmpus gwerth £11.4 miliwn i 47 awdurdod lleol ac 1 cwmni dŵr. Hoffwn ddiolch i'r swyddogion yn y cronfeydd derbyn am eu cydweithrediad a'u cefnogaeth, a'n galluogodd i leihau costau gweinyddu'r Gronfa a lleihau taliad blynnyddol Defra yn y dyfodol o tua £2 filiwn y flwyddyn.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i bawb, staff Asiantaeth yr Amgylchedd a chontractwyr allanol, am helpu'r Pwyllgor i reoli'r Gronfa dros y flwyddyn ddiwethaf.

Hwn fydd fy Adroddiad Blynnyddol olaf ar gyfer y Gronfa. Yn y tair blynedd rwyf wedi bod yn Gadeirydd, ac yn wir yn ystod y chwe blynedd rwyf wedi bod ar y Pwyllgor Pensiynau, rydym wedi gweld un o'r cyfnodau mwyaf dramatig ar gyfer pensiynau - yr argywng ariannol byd-eang a'i effaith ar farchnadoedd stoc, cynigion newydd y Llywodraeth ynghyllch pensiynau'r sector cyhoeddus, Adroddiad Hutton, a dyfodol y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol nad yw eto wedi ei gwblhau'n derfynol, y mae cronfeydd pensiwn Asiantaeth yr Amgylchedd yn rhan ohono.

Gyda'r sail statudol a'r cytundeb cyllido sydd gennym gyda Defra, mae buddion pensiwn aelodau'r Gronfa yn cael eu gwarchod. Rwy'n trosglwyddo'r baton i Gadeirydd nesaf y Pwyllgor gan wybod bod y Gronfa mewn dwylo da, ond gan wybod hefyd y bydd heriau difrifol yn parhau.



Larry Whitty
Cadeirydd, Pwyllgor Pensiynau Asiantaeth yr Amgylchedd
Gorffennaf 2012

Pwyllgor Pensiynau ac ymgynghorwyr Asiantaeth yr Amgylchedd

Mae gan y Pwyllgor Pensiynau, is-bwyllgor ffurfiol o Fwrdd Asiantaeth yr Amgylchedd, gyfrifoldeb cyffredinol am bensiynau a buddsoddiadau. Mae gan y Pwyllgor 15 aelod - 4 aelod o'r Bwrdd, 4 uwch reolwr, 5 enwebai aelodau cyflogedig, 1 enwebai aelodau gohiriedig ac 1 enwebai pensiynwyr.

Mae Bwrdd Asiantaeth yr Amgylchedd yn penodi holl aelodau'r Pwyllgor, i ddechrau am gyfnod o dair blynedd yn y swydd, ac wedi hynny mae'r aelodau yn gymwys i gael eu hail-benodi yn amodol ar gymeradwyaeth y Bwrdd. Enwebir enwebeion aelodau'r Gronfa Bensiwn Weithredol ar gyfer eu dewis gan yr undebau llafur cydnabyddedig. Rhaid iddynt fod yn weithwyr i Asiantaeth yr Amgylchedd ar y pryd ac yn aelodau o'r Gronfa. Mae'r Pwyllgor yn enwebu aelodau gohiriedig a phensiynwyr.

Nid oedd unrhyw newidiadau i'r aelodau a benodir gan y Bwrdd yn ystod y flwyddyn a pharhaodd Larry Whitty fel Cadeirydd y Pwyllgor, John Varley fel Cadeirydd yr Is-bwyllgor Buddsoddi a Robert Light fel Cadeirydd yr Is-Grŵp Buddion.

Nid oedd unrhyw newidiadau mewn aelodau gweithredol yn ystod y flwyddyn ond yn dilyn ymddiswyddiad Graham Ledward, Cyfarwyddwr Adnoddau, o Asiantaeth yr Amgylchedd ym mis Ebrill 2012, penodwyd Jonathan Robinson, Cyfarwyddwr Adnoddau a Gwasanaethau Cyfreithiol, i'r Pwyllgor. Yn dilyn ymddeoliad yr aelod gweithredol Aileen Parry ar ddiwedd mis Ebrill 2011, penodwyd Simon Peate fel aelod gweithredol am gyfnod cychwynnol o dair blynedd o fis Gorffennaf 2011 tan fis Gorffennaf 2014.

Ar ddiwedd 2011 adolygodd y Pwyllgor ei aelodaeth er mwyn sicrhau parhad yn ystod y cyfnod hwn o newid i bensiynau ac yng nghyfarfod y Bwrdd yn Chwefror 2012 cytunwyd ar yr estyniadau canlynol i benodiadau'r Pwyllgor. Ymestynnwyd aelodaeth yr aelod gweithredol Kevin Ingram tan fis Gorffennaf 2015.

Ymestynnwyd aelodaeth yr aelodau gweithredol Phil Chappell a Stuart Martin tan fis Mai 2015 a mis Tachwedd 2015 yn y drefn honno. Ymestynnwyd aelodaeth yr enwebai fel aelod gohiriedig John Kerr tan fis Chwefror 2016 ac ymestynnwyd aelodaeth yr enwebai pensiynwyr Brian Engel tan fis Mai 2015, a'r pryd hynny bydd wedi gwasanaethu 10 mlynedd ar y Pwyllgor.

Ers diwedd y flwyddyn, bu rhai newidiadau pellach i aelodaeth y Pwyllgor. Ymddeolodd Larry Whitty (Cadeirydd) a Suzanne Warner o'r Pwyllgor ar 17 Medi, ar ddiwedd eu hail dymor ar Fwrdd Asiantaeth yr Amgylchedd. Penodwyd John Varley fel Cadeirydd newydd y Pwyllgor o 18 Medi. Penodwyd Clive Elphick i'r Pwyllgor o 1 Medi a bydd yn cadeirio'r Is-Grŵp Buddsoddi . Bydd aelod pellach o'r Bwrdd yn cael ei benodi i'r Pwyllgor yn yr hydref.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Pwyllgor wedi cyfarfod bedair gwaith i gyflawni ei gyfrifoldebau fel is-bwyllgor o Fwrdd Asiantaeth yr Amgylchedd. Cynhaliwyd rhai sesiynau hyfforddi hefyd y manylir arnynt yn yr adran ar hyfforddiant Pwyllgorau. Mae'r Bwrdd yn penodi aelodau yn unol â'r Datganiad Cydymffurfio â Llywodraethu. Mae'r Pwyllgor wedi dirprwyo cyfrifoldeb i reoli buddsoddiad a gweinyddu cronfeydd pensiwn Asiantaeth yr Amgylchedd. Cyfarfu Is-Grŵp Buddsoddi'r Pwyllgor bedair gwaith. Cyfarfu Is-Grŵp Buddion y Pwyllgor dair gwaith.

Rhaid i aelodau'r Pwyllgor ddatgan unrhyw wrthdaro o ran buddiannau cyn pob cyfarfod chwarterol. Mae datganiadau yn cael eu cofnodi a'u cadw ar y gofrestr o fuddiannau gan yr Ysgrifenyddiaeth. Mae'r Cadeirydd yn adolygu'r gofrestr yn flynyddol a gwneir adolygiad pellach drwy Archwiliad Mewnol fel rhan o'u hadolygiad cydymffurfio â phensiynau blynyddol.

Aelodaeth y Pwyllgor Pensiynau ar 31 Mawrth, 2012

	Dyddiad penodi	Hyd gwasanaeth	Diwedd y penodiad cyfredol	Cyfnod sydd ar ôl o'r penodiad cyfredol
Aelodau'r Bwrdd				
Larry Whitty (Cadeirydd)	18/09/06	5 mlynedd 6 mis	17/09/12	0 blynedd 6 mis
Suzanne Warner	18/09/06	5 mlynedd 6 mis	17/09/12	0 blynedd 6 mis
Robert Light	07/07/09	2 flynedd 9 mis	30/06/12	0 blynedd 3 mis
John Varley	01/11/09	2 flynedd 4 mis	30/09/12	0 blynedd 6 mis
Aelodau gweithredol				
Mark McLaughlin	03/01/09	3 blynedd 2 mis	d/g	d/g
Graham Ledward	03/01/06	6 blynedd 3 mis	d/g	d/g
Howard Pearce	12/02/03	9 mlynedd 2 mis	d/g	d/g
Kevin Ingram	07/07/09	2 flynedd 9 mis	06/07/15	3 blynedd 3 mis
Enwebeion aelodau gweithredol				
Jackie Hamer	01/04/08	4 blynedd 0 mis	31/03/14	2 flynedd 0 mis
Huw Williams	06/07/10	1 flynedd 8 mis	05/07/13	1 flynedd 4 mis
Stuart Martin	17/11/09	2 flynedd 5 mis	16/11/15	3 blynedd 7 mis
Phil Chappell	17/05/06	5 mlynedd 10 mis	16/05/15	3 blynedd 2 mis
Simon Peate	07/07/11	0 blynedd 8 mis	06/07/14	2 flynedd 4 mis
Aelod-bensiynwr				
Brian Engel	22/05/05	6 blynedd 10 mis	22/05/15	3 blynedd 2 mis
Aelod gohiriedig				
John Kerr	09/02/10	2 flynedd 2 mis	08/02/16	3 blynedd 10 mis
Prif Weithredwr - mynchywr ex officio				
Paul Leinster	01/06/08	3 blynedd 9 mis	d/g	d/g

Hyfforddiant y Pwyllgor Pensiynau

Fel awdurdod gweinyddu Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, mae'r Pwyllgor yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod gan yr holl staff ac aelodau sy'n gyfrifol am reolaeth ariannol a gwneud penderfyniadau o ran y cynllun pensiwn yr holl wybodaeth a sgiliau i gyflawni'r cyfrifoldebau hynny. Mae'r Pwyllgor yn ceisio sicrhau bod ei aelodaeth yn fedrus ac yn brofiadol a bydd yn darparu / trefnu hyfforddiant ar gyfer ei aelodau fel y gallant gael a chynnal lefel briodol o arbenigedd, gwybodaeth a sgiliau.

Mae strategaeth hyfforddi'r Pwyllgor ar hyn o bryd yn ystyried gofynion Deddf Pensiynau 2004. Mae'r Ddeddf yn mynnu bod ymddiriedolwyr cynlluniau pensiwn galwedigaethol yn meddu ar wybodaeth a dealltwriaeth o'r gyfraith sy'n ymwneud â phensiynau a rôl ymddiriedolwyr, egwyddorion ariannu a buddsoddi'r cynllun a gweinyddu buddion cynllun pensiwn. Yn dilyn cyhoeddi canllawiau CIPFA "Pensions Finance Knowledge and Skills Frameworks", bydd y strategaeth hyfforddi yn ceisio sicrhau, wrth symud

ymlaen, y bydd yn adlewyrchu'n llawn sut mae'r gofynion a argymhellir o ran lefel gwybodaeth a sgiliau a gyflwynir yn y canllawiau CIPFA yn cael eu caffa.

Mae anghenion hyfforddiant aelodau'r Pwyllgor yn cael eu hasesu ar sail unigol ac yn ystyried arbenigedd aelodau a diddordebau presennol mewn meysydd penodol. O fewn y fframwaith hyblyg hwn gweithredir y strwythur canlynol. Mae aelodau newydd yn derbyn Llawlyfr cynhwysfawr y Pwyllgor Pensiynau a sesiwn ymsefydlu hanner diwrnod cyn mynychu eu cyfarfod cyntaf. Maent hefyd yn cael cyfle i fynychu cyrsiau mwy arbenigol ar gymwyseddau craidd penodol a gyflwynir gan ein hymgyngorwyr actiwari a buddsoddi yn ogystal â sesiynau briffio pensiwn rhanbarthol ar gyfer cyflogion Asiantaeth yr Amgylchedd a gyflwynir gan staff Capita ac Adnoddau Dynol (AD).

Ym mhob blwyddyn ddilynol o aelodaeth y mae disgwyl iddynt ymgymryd â dau neu dri diwrnod o hyfforddiant gyda'r nod o ddatblygu neu adnewyddu eu gwybodaeth a'u sgiliau mewn pynciau penodol yn fwy manwl. Mae cofnod manwl o'r holl hyfforddiant a wnaed ac a gynlluniwyd gan aelodau'r Pwyllgor yn cael ei gadw. Yn ystod 2011/12 cynhaliwyd un sesiwn hyfforddiant ar gyfer y Pwyllgor ar ddyrannu asedau strategol.

Ymgyngorwyr proffesiynol i'r Pwyllgor Pensiynau

Mae'r Pwyllgor Pensiynau yn cymryd cyfrifoldeb cyffredinol am y Gronfa ond, er mwyn sicrhau bod gweinyddiaeth a rheolaeth y Gronfa yn cael eu trin yn briodol, maent yn cyflogi ymgyngorwyr allanol arbenigol i'w cynorthwyo. Mae Capita yn cynnal gweinyddiaeth o ddydd-i-ddydd y Gronfa o'i swyddfa yn Sheffield. Dangosir rhestr o'r ymgyngorwyr isod:

Archwilydd Allanol	Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol
Bancwyr	National Westminster Bank plc Cater Allen Private Bank Ltd
Ceidwad	The Northern Trust Company
Actiwariaid	Hymans Robertson (Richard Warden)
Cyngorydd Cyfreithiol	Osborne Clarke (Mark Womersley)
Ymgyngphonydd Annibynnol Buddsoddi	Investment Adviser and Trustee Services Ltd (Carolan Dobson)
Ymgyngorwyr Buddsoddi	Hymans Robertson (Paul Potter)
Ymgyngphonydd Buddion	Hymans Robertson (Karen McWilliam)
Gweinyddwr Pensiynau	Capita

Buddion y Gronfa Bensiwn


Aelodaeth y Gronfa Bensiwn

Mae'r Gronfa yn bodoli i dalu buddion cyfredol a gohiriedig gweithwyr y cyn awdurdodau dŵr a chyrrf cysylltiedig, a oedd yn bodoli cyn 1 Medi 1989. Nid oes unrhyw aelodau sy'n cyfrannu.

Yn ystod y flwyddyn ers 1 Ebrill 2011, mae nifer yr aelodau gohiriedig wedi gostwng o 8.6%, o 3,982 i 3,640 (2011: 6.4%). Mae nifer y pensiynau a delir wedi gostwng o 3.2% o 16,437 i 15,904 (2011: 3.8%). Gyda dim aelodau gweithredol yn y Gronfa, dyma fydd y patrwm ar gyfer y dyfodol. Fodd bynnag, bydd pensiynau dibynnyddion a phensiynau gohiriedig sy'n dod i gael eu talu yn fod i gynnal nifer y pensiynwyr cyfredol am rai blynnyddoedd i ddod.

Blwyddyn	Aelodau gohiriedig	Pensiynwyr	Cyfanswm
2002/03	6,102	21,476	27,578
2003/04	5,880	20,833	26,713
2004/05	5,641	20,113	25,754
2005/06	5,368	19,456	24,824
2006/07	5,102	18,907	24,009
2007/08	4,801	18,329	23,130
2008/09	4,525	17,702	22,227
2009/10	4,256	17,081	21,337
2010/11	3,982	16,437	20,419
2011/12	3,640*	15,904	19,544

*Mae'r ffigur ar gyfer aelodau gohiriedig yn cynnwys 622 (2011: 633) o achosion lle nad oes unrhyw hawl i bensiwn gohiriedig, a'r unig hawl yw hawl i ad-daliad cyfraniadau. Mae'r rhain yn aelodau nad ydym yn gallu dod o hyd iddynt, gydag ad-daliadau yn cael eu talu fel a phan lwyddwn i gysylltu â nhw.



Profil oedran pensiynwyr presennol

	2012		2011	
	Nifer	%	Nifer	%
Plant	66	0.4	69	0.4
Pensiynwyr a gwŷr a gwragedd				
O dan 55 oed	118	0.8	149	0.9
55-59	220	1.4	239	1.5
60-64	1,527	9.6	1,515	9.2
65-69	1,502	9.4	1,441	8.8
70-74	1,612	10.1	1,832	11.1
75-79	2,743	17.2	3,002	18.3
80-84	3,602	22.6	3,805	23.2
85-89	3,005	19.0	3,000	18.2
90-94	1,258	7.9	1,122	6.8
95-99	235	1.5	236	1.4
100+	16	0.1	27	0.2
Cyfanswm	15,904	100.0	16,437	100.0

Buddion pensiwn

Mae Cronfa Bensiwn Gaeedig Asiantaeth yr Amgylchedd yn rhan o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Mae'r Gronfa wedi ei chofrestru gyda Chofrestrfa'r Cynlluniau Pensiwn, rhan o'r Rheoleiddiwr Pensiynau (TPR), a'i Rhif Cofrestredig yw 10079068. Mae'n gynllun pensiwn statudol, sy'n cael ei ariannu. Oherwydd hynny mae'n ddiogel iawn oherwydd bod ei fuddion yn cael eu diffinio ac yn warantedig gan y gyfraith. Mae'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol wedi contractio allan o Ail Bensiwn y Wladwriaeth (S2P), y Cynllun Pensiwn sy'n Gysylltiedig ag Enillion y Wladwriaeth (SERPS) gynt, ac mae'n rhaid iddo, yn gyffredinol, ddarparu buddion sydd o leiaf gystal ag y byddai'r rhan fwyaf o aelodau wedi eu derbyn pe baent wedi bod yn aelodau o S2P.

Uchafbwyntiau'r buddion a ddarperir gan Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yw:

- pensiwn gwaranteedig yn seiliedig ar eich cyflog terfynol
- cyfandaliad awtomatig di-dreth pan fyddwch yn ymddeol ar fuddion a gronnyd cyn 31 Awst, 1989
- pan fydd eich pensiwn gohiriedig yn cael ei dalu, yr opsiwn i gyfnewid peth o'ch pensiwn am gyfandaliad di-dreth mwy (hyd at 25% o werth cyfalaf eich buddion pensiwn CPLIL)
- ymddeoliad gwirfoddol o 60 oed
- ymddeoliad cynnar o 55 oed gyda chaniatâd Asiantaeth yr Amgylchedd
- pensiwn afiechyd o unrhyw oedran
- pensiwn gwâr gweddwl / gwraig weddw
- yswiriant marwolaeth ar gyfer pensiynau sy'n cael eu talu a modd i ohirio'r pensiwn yn amodol ar gymhwyster
- pensiynau plant cymwys
- cysylltu buddion â'r mynegai er mwyn sicrhau eu bod yn cadw i fyny â chwyddiant

Newidiadau i'r CPLIL

Rheoliadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Buddion, Aelodaeth a Chyfraniadau) (Diwygio) 2011 (OS 2011/561) - yn berthnasol o 1 Ebrill 2011. Cyhoeddwyd y rheoliadau hyn wedi'u diwygio ar 8 Mawrth 2011 gan yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol (DCLG) a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2011. Maent yn diwygio Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Buddion, Aelodaeth a Chyfraniadau) 2007. Maent yn cynnwys nifer fach o fân newidiadau technegol i'r darpariaethau salwch y mae eu hangen oherwydd camgymeriad mewn rheoliadau cynharach (OS 2010.2090) ynghyd â newid bach yn egluro grantiau marwolaeth a buddion i ddibynyddion ar gyfer aelodau gweithredol.

Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2014 Ym mis Gorffennaf cyhoeddodd y Gymdeithas Llywodraeth Leol (LGA) a'r undebau llafur ganlyniad eu trafodaethau gyda'r Llywodraeth ar gynigion Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol newydd (ar gyfer Cymru a Lloegr) ar gyfer 2014. Mae hyn yn golygu mai Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol fydd cynllun pensiwn cyntaf y sector cyhoeddus i weithredu'r diwygiadau strategol a gynigiwyd gan yr Arglwydd Hutton. Bydd angen i'r Llywodraeth gyhoeddi ymgynghoriad ffurfiol ar y cynigion ac mae hyn yn debygol o ddigwydd yn yr hydref, gyda'r nod o gael rheoliadau ar waith erbyn mis Ebrill 2013 i'w gweithredu ym mis Ebrill 2014. Byddwn yn eich hysbysu trwy gylchlythyrau wrth i'r broses hon barhau, yn y cyfamser ceir mwy o wybodaeth am gynigion y Gymdeithas Llywodraeth Leol a'r undebau llafur yn www.lgps.org.uk, o dan yr adran Newyddion a Diweddarriadau. Nodwch nad ydym yn disgwyl i'r newidiadau hyn effeithio ar aelodau'r Gronfa Gaeedig.

Cynnydd pensiwn blynnyddol

Y pensiwn cyfartalog a dalwyd o'r Gronfa yn 2011/12 oedd £5,200 y flwyddyn.

Mae pensiynau mewn buddion a delir a buddion gohiriedig yn destun adolygiad blynnyddol gan y Llywodraeth o dan Ddeddf Pensiynau (Cynnydd) 1971.

Ym mis Mehefin 2010 cyhoeddodd y Llywodraeth newid i'r dull o fynegeio a ddefnyddir ar gyfer pensiynau'r sector cyhoeddus o fis Ebrill 2011. Mae hyn yn golygu y bydd cynnydd i bensiynau a delir a phensiynau gohiriedig o dan y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL) bellach yn gysylltiedig â'r cynnydd yn y Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI), yn hytrach na'r cynnydd yn y Mynegai Prisiau Manwerthu (RPI).

Roedd y newid hwn yn berthnasol i godiadau pensiwn EAPF o fis Ebrill 2011 a chafodd pensiynau a delir a phensiynau gohiriedig eu cynyddu o 5.2% o 11 Ebrill 2012 (12 Ebrill 2011: 3.1%). Roedd unrhyw bensiwn oedd wedi cael ei dalu am lai na blwyddyn wedi cynyddu yn ôl swm cymesur yn dibynnu ar nifer y misoedd yr oedd wedi bod yn cael ei dalu.

Blwyddyn	Cynnydd (%)
2002	1.7
2003	1.7
2004	2.8
2005	3.1
2006	2.7
2007	3.6
2008	3.9
2009	5.0
2010	0.0
2011	3.1
2012	5.2

Cynyddu Pensiwn y Wladwriaeth

Newidiodd y Llywodraeth y ffordd y mae'n cynyddu Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth o fis Ebrill 2011. Mae'r 'gwarant driphlyg' a gyflwynwyd yn golygu bod Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth yn awr yn codi yn ôl yr uchaf o naill ai:

- a) enillion - y cynnydd yng nghyflogau'r DU ar gyfartaedd y flwyddyn honno, neu
- b) prisiau - faint mae costau byw (CPI) yn cynyddu'r flwyddyn honno, neu
- c) 2.5%.

Cynyddodd Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth o 5.2% ym mis Ebrill 2012 .

Ffurflen Mynegi Dymuniad am Grant Marwolaeth

Ydych chi wedi cwblhau ffurflen Datgan Dymuniad? Os ydych chi, a yw'n un gyfoes?

Os yn gymwys, mae grantiau marwolaeth mewn cyfandaliadau yn daladwy pe baech yn marw ar unrhyw adeg cyn i chi gyrraedd 75 mlwydd oed ac yn amodol ar gyfyngiadau rheoleiddiol. Mae gan y gronfa bensiwn y disgrifiwn yn y pen draw ynghylch pwy sy'n derbyn taliad o grant marwolaeth, felly mae'n ddefnyddiol os ydych yn rhoi gwybod iddynt beth yw eich dymuniadau. Mae ffurflen Datgan Dymuniad yn caniatáu i chi ddweud wrth eich cronfa bensiwn pwy yr hoffech iddo dderbyn taliad o'r fath. Fel arfer, mae hyn yn caniatáu i'r gronfa bensiwn wneud y taliad yn llawer cyflymach, yn uniongyrchol i'r person, personau neu elusennau yr ydych wedi eu henwebu. Gwneir taliadau hefyd y tu allan i'r ystâd ac felly mae hyn yn osgoi unrhyw dreth etifeddiant posibl.

Os ydych yn ansicr a ydych wedi gwneud enwebiad neu pwy rydych wedi ei enwebu, cwblhewch ffurflen newydd a fydd yn cymryd lle unrhyw fynegiant dymuniad blaenorol y gallech fod wedi ei wneud. Cofiwch, os bydd eich amgylchiadau personol yn newid, efallai y bydd angen i chi hefyd ddiweddar eich ffurflen Mynegi Dymuniad er mwyn sicrhau ei bod yn parhau i adlewyrchu eich dymuniadau. Mae ffurflen Mynegi Dymuniad ar gael oddi wrth Capita y mae manylion ei linell gymorth ar dudalen 14. www.eapf.org.uk neu oddi wrth Capita y mae manylion ei linell gymorth ar dudalen 14.

Gweinyddu buddion

Mesur perfformiad

Mae'r Pwyllgor yn mesur perfformiad Capita drwy adroddiadau chwarterol a blynnyddol sy'n dangos cynnydd yn erbyn y Cytundeb Lefel Gwasanaeth cytundebol (SLA). Mae'r safbwyntaxiau y mae'r Pwyllgor yn asesu perfformiad yn eu herbyn yn cynnwys cywirdeb, amseroldeb, ansawdd, parodrwydd i helpu, adborth, gwelliannau i'r gwasanaeth a chwynion.

Yn ystod y flwyddyn, cyrhaeddodd Capita y lefelau gwasanaeth gofynnol ar gyfer 99% o waith achos a broseswyd.

Y 5 math o achos mwyaf a broseswyd gan Capita ar gyfer y Gronfa yn ystod 2011/12 oedd:

Math o achos	2012	2011
Delio gyda CThEM	649	469
Marwolaeth y pensiynwr	620	685
Marwolaeth priod	520	524
Ymddeoliadau	354	331
Tystysgrifau Bywyd	253	599

Hoffem fynegi ein diolch i Capita am ateb 10,281 o geisiadau/ymholiadau aelodau'r Gronfa ac am dalu pensiynau i dros 15,900 o bensiynwyr yn ystod y flwyddyn.

Cyfanswm nifer y staff a ddyrannwyd gan Capita i'r contract gweinyddu EAPF yw 23, gydag 13 yn ymdrin â gweinyddu buddion pensiynau yn unig. Yn seiliedig ar aelodaeth o 41,624 ar draws Cronfeydd Gweithredol a Chaeedig ar 31 Mawrth 2012, mae hyn yn cynrychioli cyfartaledd o 3,202 o aelodau ar gyfer pob gweinyddwr pensiwn. Mae hyn yn cymharu'n ffafriol â chyfartaledd Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol CIPFA o 3,500 (2010).

Costau gweinyddu'r Gronfa Gaeedig am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2012 oedd £559,000 (2011: £556,000) gan gynnwys cyfathrebu ag aelodau a chostau postio.

Gweithredu'r contract gweinyddu newydd

Dros y 18 mis diwethaf, mae Asiantaeth yr Amgylchedd wedi bod yn gweithio gyda Capita i weithredu ein cytundeb gweinyddu pensiynau newydd. Mae hyn bellach wedi'i gwblhau yn llwyddiannus gyda nifer fawr o gynlluniau newydd wedi'u cyflwyno, gan gynnwys: ffioedd blynnyddol is; lefelau gwasanaeth mwy heriol; adroddiadau misol manwl, newydd; gwell system adrodd am gwynion, system ddiwygiedig ar gyfer adroddiadau chwarterol; llinell gymorth rhadffôn i aelodau, gwelliannau i ansawdd /integriti data; arolwg yr aelodau; sganio 'fiche', yn ogystal â nifer sylweddol o ganllawiau i aelodau newydd.

Yn ogystal, mae gwaith ar y strategaeth e-gyfathrebu newydd a gymeradwywyd gan y Pwyllgor drwy www.eapf.org.uk wedi cael ei gwblhau, gyda lansiad "byw" o EAPFOnline yn ystod hydref 2012. Mae rhan o'r strategaeth e-gyfathrebu hon yn cynnwys rhoi'r gorau i anfon slipiau talu pensiwn i bensiynwyr newydd a'r dewis o gael gwared fesul cam ar anfon slipiau talu pensiwn i'r holl bensiynwyr sy'n cael eu talu ar hyn o bryd.

Ansawdd data

Mae data o ansawdd da yn hanfodol i dalu buddion ymdeol a gweinyddu'r Gronfa Bensiwn Weithredol gyffredinol yn effeithlon a chywir. Mae canllawiau a gyhoeddwyd gan y Rheoleiddiwr Pensiynau (tPR) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Pwyllgor asesu ansawdd data am aelodau Cronfa Bensiwn Asiantaeth yr Amgylchedd erbyn mis Rhagfyr 2012.

Diffinnir data cyffredin gan tPR fel yr eitemau data allweddol sy'n hanfodol i nodi hunaniaeth yr aelod ac maent yn gyffredin i bob cynllun gan gynnwys rhif Yswiriant Gwladol, cyfenw, rhyw a chyfeiriad. Rhaid i'r Pwyllgor sicrhau bod 95% o'r data cyffredin yn gyflawn (yn unol â'r profion a nodir gan tPR) ar gyfer data a grëwyd cyn Mehefin 2010 a 100% yn gyflawn ar gyfer data newydd ar ôl Mehefin 2010.

Cyflawnwyd y gwaith o brofi ansawdd data ar gyfer y Gronfa yn ystod 2011/12 a rhoddwyd tystysgrif i adlewyrchu cydymffurfiad â chanllawiau tPR. Mae 100% o'n data yn gyflawn ar ôl Mehefin 2010, ac mae

98.01% o'r data cyn Mehefin 2010 yn gyflawn. Y data anghyflawn oedd cyfeiriadau ar goll / anghywir yn bennaf a gwnaed ymarferiad i ddiweddarwr cofnodion hyn.

Cafodd data yn ymwneud yn fwy penodol ag aelodau o'r enw "data amodol" eu hadolygu hefyd, gyda chanlyniadau cadarnhaol, a bydd y ddua wiriad data tPR hyn yn cael eu profi unwaith eto bob blwyddyn.

Gweithdrefn Datrys Cwynion ac Anghydfod Mewnol

Mae gan y Gronfa broses ffurfiol ar gyfer ymdrin â chwynion. Mae'r Pwyllgor yn diffinio 'cwyn' fel unrhyw fynegiant o anfodlonrwydd ar lafar neu yn ysgrifenedig gan aelodau, yr EAPF, ei gyflogwr(wyr) a / neu drydydd parti, o ran sut mae gwasanaeth wedi cael ei gyflawni. Yn ogystal, mae'r Weithdrefn Datrys Anghydfod Mewnol (IDRP) yn weithdrefn ffurfiol mewn dau gam ar gyfer datrys anghydfodau o dan Reoliadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Gweinyddu) 2008 (fel y'u diwygiwyd).

Cofiwch, os ydych yn anghytuno â phenderfyniad am eich pensiwn, mae'n bwysig iawn eich bod yn gyntaf yn cysylltu â'r person a wnaeth y penderfyniad i weld a allwch chi ddod i gytundeb anffurfiol. Gall llawer o broblemau gael eu datrys fel hyn oherwydd eu bod yn cael eu hachosi yn aml gan gamddealltwriaeth, neu wybodaeth anghywir, y gellir ei hegluro neu gywiro yn gyflym ac yn hawdd.

Os, ar ôl gwneud cwyn, y byddwch yn dal yn anfodlon â phenderfyniad a wnaed gan Asiantaeth yr Amgylchedd neu Capita yn gysylltiedig â'ch pensiwn, gallwch ddefnyddio IDRP Cynllun Pensiwn Asiantaeth yr Amgylchedd. Mae'n rhaid i chi ddechrau ar y broses o fewn chwe mis i dderbyn y penderfyniad rydych yn ei herio.

Yng Ngham 1 y weithdrefn, bydd Pennaeth Cyllid Amgylcheddol a Rheolaeth y Gronfa Bensiwn yn ystyried eich achos. Os ydych yn anghytuno gyda chanlyniad yr ymchwiliad cychwynnol, gallwch ofyn am i'ch achos gael ei ailystyried. Cam 2 yw hwn a bydd yn cael ei gyflawni gan Gadeirydd y Pwyllgor Pensiynau. Mae'n rhaid i chi alw ar Gam 2 o fewn chwe mis ar ôl cwblhau Cam 1.

Os ydych yn dal yn anfodlon, gallwch fynd â'ch achos at yr Ombwdsmon Pensiynau a fydd yn ystyried eich achos ac yn gwneud ei benderfyniad. Ar unrhyw adeg yn ystod yr anghytundeb, gallwch gynnwys y Gwasanaeth Cynghori ar Bensiynau (TPAS), sy'n cynnig gwasanaeth annibynnol am ddim a gall helpu i ddatrys yr achos. Sylwch na fydd yr Ombwdsmon Pensiynau fel arfer yn asesu eich achos hyd nes iddo gael ei ystyried gan TPAS.

Allan o 10,281 o achosion a broseswyd yn 2011/12 gan Capita, derbyniwyd wyth cwyn ffurfiol oddi wrth yr aelodau ac mae'r rhain i gyd wedi eu datrys. Nid oedd unrhyw achosion a godwyd o dan y Weithdrefn Datrys Anghydfod Mewnol (IDRP) yn ystod y flwyddyn gan aelodau'r Gronfa.

Y Cynllun Twyll Cenedlaethol / gwiriadau ar farwolaethau

Mae gan y Gronfa bolisi a gweithdrefn ffurfiol ar gyfer ymdrin â thwyll sy'n gysylltiedig â marwolaethau pensiynwyr heb eu hadrodd. Fel rhan o'r polisi hwn, mae'n cymryd rhan yng Nghynllun Twyll Cenedlaethol y Comisiwn Archwilio (NFI) a gynhelir bob dwy flynedd ac yn cynnal ymarferion dystysgrifau bywyd i bensiynwyr sy'n byw dramor neu mewn cartrefi gofal yn ogystal â'r rheiny lle mae pŵer atwrnai yn cael ei ddal gan drydydd parti. Yn 2012 am y tro cyntaf, cynhaliwyd ymarferiad i wirio marwolaethau trwy Capita Tracing fel rhan o'r contract gweinyddu gyda Capita. Fel egwyddor gyffredinol, lle rydym yn ymchwilio i achosion a lle mae twyll yn cael ei amau, byddwn yn dilyn yr achos ac yn ceisio cytuno ar gynllun ad-dalu neu, lle bo angen, yn cymryd camau cyfreithiol neu yn cynnwys yr heddlu.

Mae pob un o'r achosion o ymarferiad Cynllun Twyll Cenedlaethol 2010 wedi cael eu hadennill neu eu dileu. Bu i'r ymarferiad sgrinio marwolaethau yn 2012 drwy Capita Tracing dynnu sylw at dri achos lle roedd yr aelodau wedi marw ac mae eu pensiynau wedi cael eu hatal. Mae dwy dystysgrif bywyd ar ôl heb eu trafod o blith y rhai a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2011 i'r rhai sy'n byw dramor, mewn gofal preswyl neu lle cedwir pŵer atwrnai, ac mae'r pensiynau hyn wedi cael eu hatal ers mis Ionawr 2012.

Cyfathrebu gydag aelodau'r Gronfa

Mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn deall pwysigrwydd cyfathrebu gydag aelodau. Mae ein datganiad polisi ar gyfathrebu ar gael yn www.eapf.org.uk.

Er nad ydym yn disgwyl i aelodau'r Gronfa Gaeedig gael eu heffeithio gan ddiwygiad y Llywodraeth i bensiynau'r sector cyhoeddus, rydym wedi sicrhau bod gwybodaeth ar gael i aelodau a byddwn yn parhau i wneud hynny yn ystod 2012/13, wrth i gynlluniau'r Llywodraeth ar gyfer y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ddod yn gliriach. Mae gwybodaeth berthnasol yn cael ei chyfleu i aelodau'r Gronfa Gaeedig mewn nifer o ffyrdd, ac yn bennaf drwy'r sianelau canlynol:

Datganiadau buddion

Rydym wedi cyhoeddi datganiadau buddion blynnyddol i aelodau gohiriedig y Gronfa Gaeedig ers 2005. Cyhoeddwyd datganiadau buddion 2012 ar gyfer aelodau gohiriedig tua diwedd mis Gorffennaf.

Gwybodaeth i Aelodau

Cyhoeddir *Fundfare* bob blwyddyn i aelodau gohiriedig a phensiynwyr y gronfa, ac mae'n rhoi crynodeb byr o Adroddiad Blynnyddol a Chyfrifon ffurfiol y Gronfa. Mae'r Adroddiad Blynnyddol llawn ar gael wrth wneud cais amdano neu gellir ei ganfod yn www.eapf.org.uk.

Ers diwedd y flwyddyn, rydym wedi disodli ein canllaw ymddeol gyda 2 ganllaw byr newydd o'r enw *Thinking about retirement* a *Your life in retirement*. Mae canllaw i *Gynnydd mewn Pensiwn* ar gael hefyd. Gellir canfod y canllawiau hyn yn www.eapf.org.uk neu maent ar gael wrth wneud cais i Capita.

Anfonir cylchlythyrau o'r enw *Eich pensiwn* at grwpiau o aelodau yr effeithir arnynt pan geir newidiadau i reolau pensiwn neu reolau treth. Anfonwyd nifer o rifynnau o *Eich pensiwn* at bob aelod yn ystod y flwyddyn i roi gwybodaeth am Gomisiwn Pensiynau'r Arglwydd Hutton a materion eraill o ddiddordeb i aelodau'r Gronfa Gaeedig.

Mae cyhoeddiadau pensiwn allweddol ar gyfer aelodau yn cael eu darparu mewn fersiynau dwyieithog er mwyn bodloni Cynllun Iaith Gymraeg Asiantaeth yr Amgylchedd. Mae fersiynau electronig ar gael ar wefan y Gronfa ar www.eapf.org.uk.

Sesiynau briffio yngylch Pensiynau

Mae'r contract gweinyddu pensiynau gyda Capita yn cynnwys darparu cyflwyniadau blynnyddol i weithwyr a staff Adnoddau Dynol ar bensiynau a materion cysylltiedig yn ein Rhanbarthau ac yn y Brif Swyddfa. Gelir y rhain yn *Sesiynau briffio yngylch Pensiynau*. Yn dilyn llwyddiant sesiynau briffio blaenorol ar gyfer aelodau gohiriedig a phensiynwyr, rydym wedi trefnu sesiynau briffio cyfunol yngylch Pensiynau ar gyfer aelodau gohiriedig a phensiynwyr ym Mryste ac Efrog eleni.

E-gyfathrebu

Y llynedd cytunodd y Pwyllgor ar strategaeth newydd a fydd yn gweld y Gronfa yn symud at ddefnydd cynyddol o e-gyfathrebu gydag aelodau. Mae'r cynlluniau yn cynnwys caniatáu i aelodau gael mynediad at amrywiaeth o gyhoeddiadau pensiwn a slipiau cyflog pensiwn dros y rhyngrwyd yn hytrach na derbyn copiâu papur, gyda manteision amgylcheddol ac ariannol sylweddol i'r Gronfa. Roedd gwella'r wybodaeth sydd ar gael trwy www.eapf.org.uk a lansio mynediad diogel ar-lein i wybodaeth bersonol am bensiynau a chyfrifiadau yn allweddol i gyflwyno'r newid hwn.

Mae gwefan statig Cronfeydd Pensiwn Asiantaeth yr Amgylchedd www.eapf.org.uk yn rhoi mynediad i'n haelodau at ystod gynyddol o wybodaeth. Ein nod yw rhoi gwell dealltwriaeth o fanteision y Cynllun Pensiwn cenedlaethol Llywodraeth Leol (CPLIL) a Chronfeydd Pensiwn Asiantaeth yr Amgylchedd i'r aelodau. I'r perwyl hwnnw rydym wedi datblygu a chyhoeddi ystod eang o daflenni ffeithiau a chanllawiau byr sy'n cwmpasu gwahanol agweddau ar y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

Rydym wedi cwblhau adolygiad llawn hefyd o gynllun a chynnwys y safle ac wedi ail-lansio'r safle ochr yn ochr â lansio ein gwasanaeth rhyngweithiol ar gyfer aelodau sy'n galluogi pob aelod i gael gwybodaeth am eu buddion, gan gynnwys datganiadau buddion i aelodau gweithredol a gohiriedig a slipiau cyflog i aelodau sy'n bensiynwyr.

Rheoli buddsoddiadau

Datganiad Strategaeth Cyllido (FSS)

Fel rhan o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol mae'n ofynnol i'r Gronfa gyhoeddi Datganiad Strategaeth Ariannu. Mae hwn yn esbonio sut y mae'r Pwyllgor Pensiynau yn bwriadu ariannu rhwymedigaethau'r Gronfa ac fe'i defnyddir gan yr actiwari i oleuo ei brisiad. Mae copi o'r datganiad wedi'i gynnwys o fewn yr Adroddiad a'r Cyfrifon, y gellir eu gweld yn www.eapf.org.uk.

Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi (SIP)


Yn ogystal â Datganiad Strategaeth Cyllido, mae'n ofynnol i'r Gronfa hefyd baratoi, cynnal a chyhoeddi datganiad ysgrifenedig o'r egwyddorion sy'n llywio ei phenderfyniadau am bolisi buddsoddi. Mae'r Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi diweddaraf wedi'i gynnwys hefyd o fewn yr Adroddiad a'r Cyfrifon, y gellir eu gweld yn www.eapf.org.uk.

Balansau agor a chau'r Gronfa

Oherwydd mai dim ond aelodau gohiriedig a phensiynwyr sydd yn y Gronfa, nid oes unrhyw gyfraniadau aelodau yn daladwy. Mae hyn, ynghyd â rhwymedigaethau cynyddol y Gronfa, wedi golygu bod gwerth y Gronfa mewn perthynas â'i rhwymedigaethau wedi gostwng flwyddyn ar ôl blwyddyn. Er mwyn sicrhau y gall y Gronfa gyflawni ei rhwymedigaethau pensiwn a'i chostau cynnal cytunwyd y bydd Defra yn rhoi taliadau grant i'r Gronfa. Mae asedau'r Gronfa yn parhau i gael eu buddsoddi mewn bondiau llywodraeth sy'n gysylltiedig â'r mynegai. Mae adenillion buddsoddi yn ystod y flwyddyn yn golygu bod gwerth y Gronfa wedi cynyddu yn 2011/12.

	£000
Gwerth agoriadol ar 1 Ebrill 2011	133,405
Cynnydd net yng ngwerth y Gronfa	18,827
Gwerth wrth gau ar 31 Mawrth, 2012	152,232

Newidiadau yng ngwerth y Gronfa dros y 10 mlynedd ddiwethaf



Blwyddyn	2003	2004	2005	2006	2007	2008	2009	2010	2011	2012
£m	296	240	169	91	100	119	111	125	133	152

Prisiad actiwaraid bob tair blynedd

Mae Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn mynnu bod y Gronfa yn ddarostyngedig i brisiad ffurfiol gan actiwarai cymwysedig bob tair blynedd. Mae hyn er mwyn asesu cryfder sefyllfa ariannol y Gronfa a'i gallu i gwrdd â'i holl rhwymedigaethau.

Cyfrifwyd y prisiad actiwaraid diwethaf ar 31 Mawrth 2010 a dangosodd y gallai'r Gronfa dalu 14% o'i rhwymedigaethau. Mae asedau'r Gronfa wedi cynyddu mewn gwerth dros y flwyddyn, ac mae'r cyfraniadau a wnaed gan Defra yn golygu y bydd y Gronfa yn parhau i fodloni ei rhwymedigaethau wrth iddynt ddod yn ddyledus.

Performiad Buddsoddi

Roedd perfformiad cyffredinol y Gronfa am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2012 yn +23.5% (2011: +4.7%).

Dros y 3 blynedd hyd at 31 Mawrth 2012 roedd cyfradd flynyddol yr adenillion yn +13.5% yn erbyn adenillion y meincnod o +3.8%.

Rheolwyr y gronfa

Yn unol â'r cytundeb gyda Defra yngylch trefniadau ariannu'r Gronfa yn y dyfodol, parhawyd i wneud buddsoddiadau mewn giltiau dros gyfnod hir cysylltiedig â'r mynegai yn ystod y flwyddyn.

Rheolodd Sarasin & Partners LLP y portffolio giltiau dros dymor hir a cheisiwyd sicrhau adenillion yn unol â'u meincnod, ac yn unol â'r canllawiau a osodwyd gan y Pwyllgor Pensiynau yn y Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi.

Dosbarthiad o fuddsoddiadau'r Gronfa

Dosbarthiad o asedau net yn ôl eu gwerth ar y farchnad ar 31 Mawrth, 2012

	Sarasin & Partners LLP	Arian ac Arall	Cyfanswm y Gronfa	% o'r Gronfa Gyfan
	£m	£m	£m	
Giltiau'r DU yn gysylltiedig â'r mynegai	144.3	-	144.3	94.5
Arian	-	8.0	8.0	5.2
Arall (incwm cronedig yn bennaf)	-	0.4	0.4	0.3
	144.3	8.4	152.7	100.0

Ymholiadau a chwynion yr aelodau

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch eich buddion pensiwn, gallwch naill ai:

- Ffonio'r llinell gymorth ar 0800 121 6593
- E-bostio eich ymholiad i info@eapf.org.uk
- Ysgrifennu at y Gweinyddwr Pensiynau, Capita, yn y cyfeiriad isod:

EAPF
Capita
2 Cutlers Gate
Sheffield
S4 7TL

Os oes gennych unrhyw ymholiadau am bolisiau pensiwn neu Weithdrefn Datrys Anghydfod Mewnol (IDRP) Asiantaeth yr Amgylchedd, gallwch naill ai:

- Adolygu'r canllaw i ddefnyddio IDRP ar www.eapf.org.uk
- E-bostio eich ymholiad at pensions.team@environment-agency.gov.uk
- Ysgrifennu at Dîm Pensiynau Adnoddau Dynol Asiantaeth yr Amgylchedd yn y cyfeiriad isod:

Asiantaeth yr Amgylchedd
Horizon House
Deanery Road
Bryste
BS1 5AH

© Asiantaeth yr Amgylchedd 2012

WaterAid

Bensiynwyr - oeddech chi'n gwybod y gallwch, os dymunwch, roi rhoddion i WaterAid neu gymryd rhan yn loteri WaterAid drwy ddidyniad o'ch pensiwn? Y cyfan sydd angen i chi ei wneud yw ysgrifennu at Tammy Mills, Rheolwr y Gyflogres Pensiynau yn Capita, 2 Cutlers Gate, Sheffield, S4 7TL. Nodwch eich rhif Yswiriant Gwladol a dywedwch wrthi faint rydych am ei roi ac a ydych am wneud taliad untro neu daliadau misol.

Atodiad 1 - Cytundeb cyllid y Llywodraeth

Detholiad o lythyr a anfonwyd ar 15 Ebrill 2004 gan Paul Boateng (Prif Ysgrifennydd y Trysorlys) at y Gwir Anrhydeddus Margaret Beckett (Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd)

Cronfa Bensiwn Gaeedig Asiantaeth yr Amgylchedd

"Diolch am eich llythyr ar 18 Mawrth yn gofyn am newid yn y drefn a gytunwyd yn adolygiad gwariant 2002 ar gyfer ariannu rhwymedigaethau Cronfa Bensiwn Asiantaeth yr Amgylchedd. Rwy'n barod i gytuno i'r trefniadau diwygiedig a awgrymwch ar gyfer adolygiad gwariant blwyddyn Ilinell sail 2004. Bydd cyllido Cronfa Bensiwn Gaeedig Asiantaeth yr Amgylchedd yn parhau i gael ei neilltuo a bydd yn lleihau dros amser wrth i'r rhwymedigaeth gael ei thalu."

Paul Boateng

Detholiad o lythyr a anfonwyd ar 15 Gorffennaf 2004 gan y Gwir Anrh. Margaret Beckett (Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd) at Syr John Harman (Cadeirydd Asiantaeth yr Amgylchedd)

Cronfa Bensiwn Gaeedig Asiantaeth yr Amgylchedd

Mae Cronfa Bensiwn Gaeedig Asiantaeth yr Amgylchedd mewn diffyg actiwaraid. Mae prisiadau cyfredol yn dangos na fydd yr asedau sydd ar gael yn cwrdd â'i rhwymedigaethau yn y dyfodol a bydd y Gronfa wedi ei dihysbyddu erbyn hydref 2006. Rhoddodd Adran 173 Deddf Dŵr 1989 swyddogaeth i mi ddarparu cyllid i alluogi i ddyledion y Gronfa - cynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus, cyflog terfynol, a ariennir - gael eu talu. Rwy'n bwriadu arfer y swyddogaeth hon drwy sefydlogi'r Gronfa a rhoi taliadau ychwanegol blynnyddol iddi o fis Ebrill 2006.

Dylid caniatáu i asedau'r Gronfa fynd i lawr (yn hytrach na chael eu datod) ac yna eu sefydlogi drwy daliadau ychwanegol blynnyddol gan ddefnyddio darpariaethau adran 173 Deddf Dŵr 1989, a thrwy hynny dalu rhwymedigaethau parhaus ar sail talu-wrth-fynd. Mae Prif Ysgrifennydd y Trysorlys wedi cytuno i hyn ac y dylem gadw digon o arian yn y gronfa i ariannu costau blynnyddol o 2006/07.

Mae prisiadau actiwaraid yn dangos y bydd y Gronfa yn disgyn yn is na'r marc £100 miliwn - sy'n cyfateb i ychydig yn uwch na'r treuliau blynnyddol yn ystod hanner olaf 2005/06. Cynigiaf felly y dylid ychwanegu at y Gronfa ym mis Ebrill / Mai 2006 ac eto ym mis Medi / Hydref 2006 gyfanswm sy'n cyfateb i'w threuliau blynnyddol fel y pennir gan ragolygon actiwaraid. Bydd hyn yn cael ei ailadrodd yn y blynnyddoedd dilynol, gyda'r swm yn gymesur i rwymedigaethau gwirioneddol y Gronfa.

Rwy'n cadarnhau na fydd gweithredu'r cynigion hyn naill yn gwanhau nac yn cael gwared ar fy swyddogaeth gyllido statudol o dan adran 173 Deddf Dŵr 1989. Ni fydd pensiynwyr y Gronfa yn gweld unrhyw newid yn y ffordd y telir eu pensiynau unigol, a gallant fod yn sicr y bydd yr hyn mae ganddynt hawl iddo yn cael ei dalu. Byddwn felly yn cymeradwyo'r trefniadau hyn i chi, Pwyllgor Pensiynau'r Asiantaeth ac i aelodau'r Gronfa.

Margaret Beckett

Atodiad 2 - Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth

Rhwng:

Yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig o
Nobel House, 17 Smith Square, Llundain SW1P 3JR ("yr Ysgrifennydd Gwladol"),
ac

Pwyllgor Pensiynau Asiantaeth yr Amgylchedd - o Rio House, Waterside
Drive, Almondsbury, Bryste, BS32 4UD ("yr Asiantaeth").

Cefndir

1. Mae Cronfa Gaeedig Asiantaeth yr Amgylchedd ("y Gronfa Gaeedig") yn cael ei breinio yn, ac y mae'n ofynnol ei chynnal gan, Asiantaeth yr Amgylchedd gan reoliad 2 (1) o Reoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Asiantaeth yr Amgylchedd) 1996.
2. Cyn 1989, roedd Cronfa Bensiwn yr Awdurdodau Dŵr ("WASF") yn gwasanaethu'r cyn Awdurdodau Dŵr Rhanbarthol yng Nghymru a Lloegr. O dan Ddeddf Dŵr 1989 trosglwyddwyd eu swyddogaethau cyflenwi dŵr a charthffosiaeth i gwmnïau dŵr a grëwyd o'r newydd, ynghyd â'r gweithwyr perthnasol. Cafodd y rhwymedigaethau pensiwn a'r asedau mewn perthynas â gweithwyr o'r fath eu trosglwyddo o'r WASF i gynlluniau pensiwn y cwmnïau dŵr newydd. Cafodd y rhwymedigaethau pensiwn a'r asedau o ran y gweithwyr sy'n weddill, a hefyd y cyn-gyflogeon a phensiynwyr, eu trosglwyddo gyda'r WASF i'r Awdurdod Afonydd Cenedlaethol ("yr NRA"), a sefydlodd gronfa bensiwn ar gyfer ei weithwyr ei hun ("y Gronfa Weithredol") y trosglwyddwyd y rhwymedigaethau pensiwn a'r asedau o ran y gweithwyr dywedegid oedd ar ôl iddi.
3. Yn dilyn trosglwyddo aelodau gweithredol a gyflogid i gynlluniau pensiwn y cwmnïau dŵr a'r Gronfa Weithredol, yr unig aelodau oedd ar ôl o'r WASF oedd aelodau gohiriedig a phensiynwyr. Ni dderbyniwyd unrhyw aelodau pellach iddi, ac felly daeth yn gynllun caeedig ("y Gronfa Gaeedig"). Derbyniodd yr Ysgrifennydd Gwladol a'r NRA y posiblirwydd na fyddai gan y Gronfa Gaeedig, maes o law, adnoddau digonol i gwrdd â'i rhwymedigaethau pensiwn. O 1 Ebrill 1996 cymerodd yr Asiantaeth gyfrifoldeb am swyddogaethau'r NRA ac mae'r Gronfa Gaeedig bellach yn cael ei galw yn Gronfa Gaeedig Asiantaeth yr Amgylchedd.
4. Mae'r Gronfa Gaeedig yn cael ei chynnal at ddibenion Adran 7 Deddf Blwydd-daliadau 1972, ac yn unol â hynny mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol y swyddogaeth a roddwyd gan adran 173 y Ddeddf i wneud pa daliadau bynnag i'r Gronfa Gaeedig y gellir eu hystyried yn briodol mewn perthynas â'r rhwymedigaethau gwirioneddol a phosibl y mae'n rhaid eu talu o bryd i'w gilydd o'r Gronfa Gaeedig er budd ei haelodau ("aelodau'r Gronfa Gaeedig").
5. Ar 31 Mawrth 2004, nododd prisiad FRS 17 y Gronfa Gaeedig fod ganddi ddiffyg net at ddibenion cyfrifyddu o £826,600,000 ac mae ei phrisiad actiwaraid yn dangos bod ganddi lefel ariannu o 21% a oedd yn cyfateb i ddiffyg net o arian wrth gefn am wasanaeth yn y gorffennol o £880,000,000. Mae gwerth y rhwymedigaeth o dan y ddua brisiad yn sensitif i gyfraddau marwolaethau yn y dyfodol, cyfraddau chwyddiant, a'r gyfradd disgownt a ddefnyddir.
6. Mae'r Memorandwm Dealltwriaeth hwn yn nodi'r mecanwaith lle bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn arfer y swyddogaeth o dan adran 173 Deddf Dŵr 1989 gyda golwg ar ymdrin â'r diffyg yn y Gronfa Gaeedig.
7. Mae'r Memorandwm hwn wedi'i gytuno rhwng yr Ysgrifennydd Gwladol ac Asiantaeth yr Amgylchedd ac mae'r trefniadau ar gyfer ariannu'r Gronfa Gaeedig wedi cael eu cymeradwyo gan Drysorlys Ei Mawrhydi yn unol â'r adran honno, fel y nodwyd yn y llythyr ar 15 Ebrill 2004 oddi wrth y Prif Ysgrifennydd at yr Ysgrifennydd Gwladol, yn amodol ar yr amodau y cyfeirir atynt yn y llythyr hwnnw.

Taliadau i mewn i'r Gronfa

8. Mae lefel gyllido'r Gronfa Gaeedig yn parhau i ddirywio, ac ar gyngor actiwaraid tybir y bydd gwerth yr asedau yn gostwng i lefel o rhwng £50 miliwn a £60 miliwn erbyn tua mis Ebrill 2006. O'r dyddiad hwnnw ymlaen bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn sicrhau bod taliadau arian parod yn cael eu gwneud i'r Gronfa bob blwyddyn a fydd yn gwneud cyfanswm o swm sy'n cyfateb i gyfanswm ei dreuliau blynnyddol (a ddiffinnir fel cyfanswm y taliadau a ragwelir i bensodynwyr, trosglwyddiadau allan o'r Gronfa Gaeedig,

rheoli buddsoddiadau neu ffioedd asiantau eraill, costau gweinyddu, a phob dyledion neu dreuliau eraill, llai llog a enillwyd ar daliadau arian parod o'r fath a wnaed i Asiantaeth yr Amgylchedd ar gyfer y Gronfa Gaeedig yn ystod y flwyddyn) i'w cyfrifo a'u hardystio'n briodol gan Asiantaeth yr Amgylchedd yn unol â chyngor actiwaraidd a dderbyniwyd.

9. Pwrpas taliadau o'r fath fydd ariannu treuliau blynnyddol y Gronfa Gaeedig a byddant yn cael eu trin ar wahân i gyllid prif ffrwd Asiantaeth yr Amgylchedd. Fe'u gwneir bob chwe mis, gyda'r symiau i'w talu yn gyfartal i swm treuliau'r Gronfa ar gyfer y chwe mis blaenorol. Gwneir y taliad cyntaf i'r Gronfa ym mis Ebrill 2006. Bydd y taliadau hyn yn parhau hyd nes bydd rhwymedigaethau'r Gronfa Gaeedig wedi eu cwrdd yn llawn. Mae rhagamcanion actiwaraidd diweddaraf yn dangos y bydd hyn yn digwydd yn 2062.
10. Bydd y taliadau hyn ar ffurf Grant-mewn-Cymorth wedi'i neilltuo gan yr Ysgrifennydd Gwladol, a byddant yn cael eu talu ddwywaith y flwyddyn ym mis Ebrill a mis Hydref drwy weithdrefnau arferol Grant-mewn-Cymorth i Asiantaeth yr Amgylchedd.
11. Bydd Asiantaeth yr Amgylchedd yn rhoi copi i'r Ysgrifennydd Gwladol o gyngor actiwaraidd a dderbyniwyd a pha bynnag wybodaeth sy'n ofynnol yn rhesymol i ddangos sut mae'r taliadau a ardystiwyd fel rhai taladwy wedi cael eu cyfrifo. Bydd unrhyw asedau a ddelir yn y Gronfa Gaeedig sy'n fwy na'r taliadau yn cael eu cadw i ddiogelu rhag mân amrywiadau o ran gwariant hyd nes y bydd dystysgrif yr actiwari i'r Gronfa Gaeedig yn cadarnhau bod eu cadw yn ddiangen. Bydd copi o unrhyw dystysgrif o'r fath yn cael ei ddarparu gan yr Asiantaeth yr Amgylchedd i'r Ysgrifennydd Gwladol.
12. Bydd taliadau a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol i mewn i'r Gronfa Gaeedig yn cael eu hadrodd yng nghyfrifon blynnyddol Defra ynghyd â rhwymedigaeth y Gronfa Gaeedig yn unol ag FRS 17 (neu unrhyw safon cyfrifyddu sy'n ei disodli).

Taliadau i bensiynwyr

13. Ni fydd unrhyw beth yn y Memorandwm hwn yn effeithio ar rôl Asiantaeth yr Amgylchedd wrth wneud taliadau o'r Gronfa Gaeedig fydd yn cael eu gwneud yn unol â Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 1997 ("Rheoliadau LGPS").

Rheoli, monitro ac adolygu

14. Bydd Asiantaeth yr Amgylchedd yn rheoli asedau gweddilliol y Gronfa Gaeedig yn ôl y safonau uchel o onestrwydd ariannol a ddisgwylir gan y rhai sy'n gyfrifol am reoli asedau cyhoeddus. Bydd Asiantaeth yr Amgylchedd yn buddsoddi unrhyw arian dros ben, fel sy'n ofynnol gan Reoliadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Rheoli a Buddsoddi Arian) 1998 ac yn unol â Datganiad y Gronfa Gaeedig o Egwyddorion Buddsoddi a'r Datganiad Strategaeth Cyllido. Bydd gweithdrefnau Asiantaeth yr Amgylchedd a chyfrifon y Gronfa yn parhau i fod yn destun archwiliad allanol blynnyddol, ac nid oes dim yn y Memorandwm hwn yn effeithio ar yr angen am brisiad actiwaraidd o'r Gronfa Gaeedig fel sy'n ofynnol gan Reoliadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.
15. At ddibenion monitro, bydd Asiantaeth yr Amgylchedd yn hysbysu'r Ysgrifennydd Gwladol am rwymedigaethau'r Gronfa Gaeedig ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol yn unol ag FRS 17 (neu unrhyw safon cyfrifyddu sy'n ei disodli).
16. Bydd y wybodaeth hon yn cael ei defnyddio i ddiweddu darpariaethau yng nghyfrifon blynnyddol Defra. Bydd amrywiadau sylweddol o daliadau Grant-mewn-Cymorth yn cael eu cyfawnhau'n llawn gan Asiantaeth yr Amgylchedd.
